# Adroddiad Arolygu

**Clwb Gofal Llannon**

**Ysgol Gynradd Llannon**
**Llannon**
**Llanelli**
**SA14 6AE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Clwb Gofal Llannon

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Menter Cwm Gwendraeth Elli Cyfyngedig |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Medi 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal ac maent yn gwneud ffrindiau cadarn ymhlith eu cyfoedion. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a gynigir iddynt.

Mae polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith er mwyn diogelu llesiant y plant a'i hybu. Mae'r staff gofal yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgar. Maent yn deall anghenion unigol y plant ac yn eu diwallu.

Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r staff gofal wedi nodi risgiau diangen i'r plant ac wedi'u dileu cymaint â phosibl. Mae dodrefn, cyfarpar, teganau a deunyddiau ar gael i'r plant sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion. Mae dyluniad a chyflwr yr adnoddau yn addas, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae datganiad o ddiben clir gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad, sy'n disgrifio'r weledigaeth ar gyfer y lleoliad yn dda. Maent yn cefnogi ac yn herio pawb i wneud eu gorau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio diogel a thrylwyr er mwyn sicrhau bod digon o staff gofal cymwys a phrofiadol ar gyfer yr amrywiaeth o blant sy'n cael gofal.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn y clwb a gallant gyfeirio eu chwarae eu hunain. Mae'r plant yn mynd ati'n hyderus i ddechrau chwarae gemau ac yn gofyn am gymorth gan y staff gofal pan fo angen. Gwelsom blant yn creu lloches gan ddefnyddio matiau mawr a chadeiriau, wrth i eraill ddewis lliwio lluniau a oedd wedi'u paratoi ar eu cyfer. Mae gan y plant gydberthnasau agos ag oedolion sy'n gyfarwydd iddynt, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus. Mae bron pob un o'r plant yn hapus wrth chwarae ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'n well gan rai o'r plant chwarae ar eu pen eu hunain, a chafodd hyn ei barchu.

Mae'r plant yn gwerthfawrogi eu hamser yn y lleoliad. Dywedodd sawl un o'r plant wrthym eu bod yn mwynhau dod i'r clwb. Mae'r plant newydd yn setlo'n eithriadol o dda ac yn mwynhau darganfod beth sydd ar gael iddynt ei wneud. Mae gan y plant gydberthnasau da â'r staff gofal, ac maent yn sgwrsio â'i gilydd fel ffrindiau. Mae'r plant hŷn yn cefnogi'r plant iau, ac fe'u gwelsom yn canmol y plant iau am wneud gwaith lliwio da. Mae'r plant yn hyderus ac yn mwynhau sgwrsio â ni a gofyn am ein rolau.

Mae'r plant yn dewis o amrywiaeth dda o weithgareddau, sy'n ysgogol ac yn ddiddorol. Er enghraifft, gemau pêl, coginio, tynnu lluniau a lliwio, adeiladu lloches, gemau bwrdd a gweithgareddau crefft. Roedd y plant yn golchi eu dwylo drwy gydol y sesiwn, yn ogystal â chyn amser byrbryd. Cymraeg yw'r unig iaith a ddefnyddir yn y lleoliad.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae amrywiaeth dda o weithdrefnau iechyd a diogelwch priodol ar waith i sicrhau llesiant y plant. Mae pob aelod o'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu. Mae'r staff gofal yn cyfleu negeseuon diogelwch i'r plant er mwyn osgoi unrhyw ddamweiniau. Er enghraifft, gofyn i blentyn sicrhau na fyddai'r gadair yn cwympo i mewn i'r lloches.

Mae'r staff gofal yn rheoli'r rhyngweithio rhwng y plant yn dda, gan eu helpu i gydweithredu a dysgu sgiliau cymdeithasol. Mae'r staff gofal yn eistedd ac yn sgwrsio â'r plant gan ymateb yn briodol i drafodaethau. Maent yn rhoi canmoliaeth ac anogaeth drwy gydol y sesiwn, a gwnaethant sôn yn falch wrthym sut roedd plentyn newydd wedi setlo cystal mewn cyfnod byr. Mae'r staff gofal yn parchu'r plant sy'n mwynhau chwarae ar eu pen eu hunain ac sydd am gael llonydd. Fodd bynnag, maent yn cynnig y cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp os byddant am wneud hynny.

Mae'r staff gofal yn diwallu anghenion unigol y plant am eu bod yn eu hadnabod yn dda. Maent yn darparu awyrgylch magwrus a gofalgar ac yn rhoi gofal ymatebol, gan eu bod yn ymwybodol o fanylion am y plant a gaiff eu rhannu gan y rhieni, ar lafar ac ar ffurflenni cofrestru, ac yn gweithredu arnynt.

Mae'r staff gofal yn hybu datblygiad y plant drwy gynllunio a darparu profiadau chwarae a dysgu da. Mae'r person â chyfrifoldeb yn cynllunio gweithgareddau wythnosol fel bod y plant yn gwybod beth y byddant yn ei wneud. Fodd bynnag, maent yn hyblyg os bydd y plant am wneud rhywbeth arall ar y diwrnod. Mae'r staff gofal yn rhoi adborth clir ar lafar i'r rhieni pan fyddant yn casglu eu plant. Mae'r staff gofal yn sicrhau bod anghenion iechyd y plant yn cael eu diwallu ac maent yn cael hyfforddiant os bydd angen.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda. Nid oes unrhyw beryglon mewn unrhyw ardaloedd dan do nac yn yr awyr agored, ac mae'r staff gofal yn cwblhau asesiadau risg bob dydd. Mae pob ymwelydd yn llofnodi wrth gyrraedd ac wrth adael. Mae'r staff gofal yn cofnodi eu hamseroedd cyrraedd a gadael eu hunain, yn ogystal â rhai'r plant, bob dydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd sy'n addas i'r plant. Mae'r plant yn defnyddio cadeiriau, byrddau a dodrefn o faint addas yn yr adeilad. Gall y plant gael gafael ar gyfarpar ac adnoddau yn annibynnol. Mae ardal awyr agored fawr ar gael iddynt hefyd, sef iard chwarae a chae yr ysgol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da ar gael i'r plant. Mae digon o weithgareddau a theganau ar gael er mwyn sicrhau bod gan y plant ddewis diddorol. Dywedodd y staff gofal wrthym fod cyfarpar newydd wedi cael ei brynu eleni. Caiff yr holl deganau a gemau eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da a chânt eu storio ar lefel sy'n addas ar gyfer taldra'r plant. Mae'r cyfarpar a'r dodrefn yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu'r lleoliad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hyrwyddo canlyniadau da i'r plant. Mae'r staff gofal yn dweud wrthym eu bod yn hapus ac yn cael eu cefnogi'n dda. Mae arferion cyson ar waith ym mhob rhan o'r lleoliad ac mae'r staff gofal yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru sy'n adlewyrchu'r hyn a gynigir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adnabod eu gwasanaeth yn dda. Mae'r staff gofal yn cadarnhau eu bod yn cael profiad da yn eu gwaith, ac mae'r aelodau newydd o staff wedi setlo'n dda ac yn cael cymorth da gan yr arweinwyr. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgynghori â'r plant a'r staff gofal fel rhan o'r broses werthuso ac yn cynllunio ymlaen llaw gyda'i gilydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff gofal yn effeithiol drwy sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennau ategol cywir a chaiff gwiriadau cadarn eu cynnal cyn cyflogi. Mae pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg.

Mae'r rhieni yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am eu plentyn drwy adborth llafar. Dywedodd y rhieni wrthym fod y gwasanaeth yn werthfawr dros ben a bod eu plant yn mwynhau mynd yno. Maent yn gofyn am gael mynd yno hyd yn oed pan nad oes angen i'r rhieni drefnu gofal plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/03/2024